




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Gwarcheidiaeth Eiddo a Materion Ariannol Unigolion Coll Ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 27 Awst 2014
Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 18 Tachwedd 2014



Crynodeb gweithredol

Mae llawer o bobl yn ymwybodol drwy adroddiadau'r cyfryngau neu brofiad personol o achosion lle bydd unigolion yn mynd ar goll heb rybudd nac esboniad ac yn diflannu am gyfnod sylweddol o amser. Mae eu diflaniad yn gwneud eu heiddo a'u materion ariannol yn agored i ddirywiad gan nad oes unrhyw un i'w rheoli na'u cyfarwyddo; ac mae'n gadael eu teuluoedd a'u dibynnyddion heb y cymorth y byddent wedi disgwyl ei gael.

Mewn rhai gwledydd mae darpariaethau cyfreithiol ar waith yn y sefyllfaoedd hyn sy'n galluogi rhywun i gael awdurdod gan lys neu dribiwnlys i gamu i'r adwy ac amddiffyn buddiannau'r unigolyn coll a thrwy hynny helpu'r rheini a adawyd ar ôl. Nid oes trefniant tebyg mewn grym yng nghyfraith Cymru a Lloegr.

Yn y papur hwn, ceisiwn farn ar b'un a ddylai fod dull cyfreithiol newydd o benodi unigolyn i weithredu ar ran unigolyn sydd wedi mynd ar goll ac er budd yr unigolyn hwnnw. Er hwylustod, cyfeiriwn at yr unigolyn a benodir fel "gwarcheidwad" eiddo a materion ariannol yr unigolyn coll, ond gellir defnyddio term gwahanol mewn unrhyw ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn.

Nid yw rhoi awdurdod i un unigolyn ddefnyddio eiddo unigolyn arall, nad yw'n bresennol i gynrychioli ei fuddiannau ei hun, yn gam i'w gymryd yn ysgafn gan fod y cyfle i gamddefnyddio'r awdurdod hwn yn amlwg iawn. Byddai disgwyl i unigolyn sy'n cael awdurdod o'r fath weithredu yn unol â'r safonau uchaf ac er budd yr unigolyn coll yn unig.

Fodd bynnag, cafwyd cryn gefnogaeth i greu statws gwarcheidwad yn y sefyllfaoedd hyn. Yn 2011 a 2012 galwodd y Grŵp Seneddol Amlbleidiol ar gyfer Plant ac Oedolion sydd wedi Rhedeg i Ffwrdd neu sydd ar Goll a Phwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin am ddeddfwriaeth a mynegodd nifer o Aelodau'r Senedd eu cefnogaeth yn ystod y broses o basio'r Bil a alwyd yn ddiweddarach Deddf Rhagdybio Marwolaeth 2013 drwy'r Senedd yn ystod sesiwn 2012-13.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gefnogaeth i ddiwygio ac mae'n bwriadu penderfynu a ddylid cyflwyno statws cyfreithiol gwarcheidwad pan fydd wedi ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Er hyn, mae'r papur ymgynghori yn nodi cynigion dros dro er mwyn i'r rheini yr ymgynghorir â hwy eu hystyried yng nghyswllt pa fath o gynllun gwarcheidiaeth y gellid ei ystyried pe penderfynid rhoi cynllun o'r fath ar waith. Mae'r cynigion dros dro hyn yn adlewyrchu rhagesiamplau'r systemau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill a'r darpariaethau cymharol debyg sy'n llywodraethu'r broses o benodi Dirprwyon o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

Dyma brif nodweddion y cynigion dros dro:

Bydd gwarcheidiaeth yn rôl ymddiriedol - tebyg i ymddiriedolaeth.

Mae'n rhaid i'r gwarcheidwad weithredu er budd yr unigolyn coll yn unig.

Dylai'r camau gweithredu a gymerir gan y gwarcheidwad gael yr un effaith â phe baent wedi'u cymryd gan yr unigolyn coll.

Yn gyffredinol, dylai'r gwarcheidwad allu gweld gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r unigolyn coll a gwneud unrhyw beth mewn perthynas ag eiddo a materion ariannol yr unigolyn coll (ac eithrio llunio ewyllys) y byddai'r unigolyn coll wedi gallu'i wneud yn bersonol.

Dylai unrhyw un allu gwneud cais i gael ei benodi fel gwarcheidwad ar yr amod bod ganddo ef neu hi ddigon o fuddiant ond ni ddylai ei fuddiant ef neu hi wrthdaro â buddiannau'r unigolyn coll.

Y llys ddylai benodi gwarcheidwad.

Dim ond os yw'r unigolyn wedi bod ar goll am 90 diwrnod neu fwy y dylid gwneud penodi gwarcheidwad ac os yw'n debygol, yn ôl pob golwg, y bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch eiddo a materion ariannol yr unigolyn coll.

Dylai'r penodiad fod am gyfnod o hyd at bedair blynedd gyda'r posibilrwydd o wneud cais am estyniad am hyd at bedair blynedd arall.

Gall y penodiad fod yn gyffredinol neu'n gyfyngedig a gellir ei wneud ar yr amod bod bond diogelwch digonol yn cael ei ddarparu.

Bydd y gwarcheidwad yn cael ei oruchwylio gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a bydd yn ofynnol iddo ffeilio'r cyfrifon.

Nid yw manylion y cynllun gwarcheidiaeth arfaethedig wedi'u cymeradwyo'n derfynol eto ond rhagwelwn os caiff y statws cyfreithiol newydd ei greu, y gallai fod manteision sylweddol i'r unigolyn coll a'r rheini a adawyd ar ôl, p'un a ydynt yn aelodau o'r teulu, yn ddibynyddion neu'n drydydd partïon, fel banciau, sefydliadau ariannol neu gredydwy. Gallai'r manteision gynnwys diogelu eiddo'r unigolyn coll a fyddai fel arall yn dirywio neu'n mynd yn ofer; neu ddiogelu sefyllfa aelodau'r teulu a adawyd ar ôl drwy alluogi ymrwymadau morgais ac ymrwymadau ariannol eraill yr unigolyn coll i gael eu bodloni; neu drwy greu mwy o sicrwydd i drydydd partïon sy'n gorfod penderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth neu gynnal trafodion. Fodd bynnag, byddai rhai costau i fusnesau ac eraill hefyd o ran addasu i'r darpariaethau newydd.

Mae'r data ar nifer yr unigolion sy'n mynd ar goll yng Nghymru a Lloegr ynghyd ag arwyddion gan awdurdodaethau eraill ar y defnydd o'u deddfwriaeth hwy, yn awgrymu pe bai darpariaethau tebyg yn cael eu creu yng Nghymru a Lloegr y byddai rhwng 50 a 300 o benodiadau yn cael eu gwneud bob blwyddyn.

Byddem yn croesawu eich barn ar y cynigion dros dro ac ar y gwaith o asesu'r effaith y gallent ei chael.

Wrth baratoi'r papur ymgynghori hwn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cael help a chefnogaeth gan yr elusen Missing People a'i chyfreithwyr pro bono Clifford Chance. Rydym yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth y maent wedi'i rhoi i ni. Fodd bynnag, y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am gynnwys y papur ymgynghori.